

Cofion a Chyfarchion

- Estynnwn ein cydymdeimlad cywiraf heddiw ag Eluned Roberts (Llanefydd) a gweddill y teulu yn dilyn marwolaeth ei mam y penwythnos diwethaf. Yr un yw'n cydymdeimlad hefyd â Gwen Evans (Saron) a Clwyd Rogers (Llanefydd) a'u teuluoedd yn dilyn marwolaeth eu brawd, a hynny mor fuan ar ôl colli eu chwaer. Gweddiwn y bydd pob un ohonynt yn adnabod heddwch a thangnefedd cwmni'r Arglwydd Iesu.
- Parhawn i gofio am John H. Williams (Llanefydd) sy'n cael gofal yn yr Inffirmari, a phawb arall o'r Ofalaeth sydd heb fod yn dda eu hiechyd y dyddiau hyn. Cyflwynwn hwy i ofal yr Arglwydd gan weddio y byddant yn adnabod daioni Duw yn eu hamgylchynu.
- Mae Mrs Kate Owen (Cefn Meiriadog) wedi mynd i gael gofal am gyfnod i gartref Yr Hen Ddeondy. Anfonwn ein cofion ati ac at ein cyfeillion eraill sydd mewn cartrefi gofal – Miss W J Roberts, Cefn Meiriadog a Mrs Edith Maloney, Henllan (Yr Hen Ddeondy, Llanellwyr); Mrs Elsie May Edwards, Llansannan a Mrs Kitty Parry, Llanefydd (Yr Hen Ficerdy, Pandy Tudur); Mrs Bessie Owens, Cefn Berain (Plas Llanrhaeadr); Mrs Morfudd Williams, Henllan (Tŷ Cariad, Abergel); Mrs Gwenfyl Williams, Llansannan (Bryn yr Eglwys, Pentrefoelas); a Mrs Elizabeth Hughes, Llansannan (Plas Eleri, Dinbych). Gweddiwn eu bod yn profi gofal a grym ein gweddiâu drostynt.
- Llongyfarchiadau i Rhys ac Anna Williams (Llanefydd) ar enedigaeth merch, Efa Storey, chwaer fach i Cian. Dymunwn fendith Duw arnynt fel teulu.
- Llongyfarchiadau hefyd i Bethan Jones (Groes) a Nicolas Fournet ar eu dyweddiad. Dymunwn yn dda i'r ddau ohonynt.

I ddod

- **“CLYWSOCH FEL Y DYWEDWYD”...SORI, BE?** – sesiwn ymarferol yn Llanefydd nos Fercher, Mehefin 21ain am 7.30 i'n helpu i glywed Gair Duw yn gliriach, yn cynnwys creu map i ganfod ein ffordd drwy'r Beibl.
- **PENWYTHNOS MERCHED YN Y BALA** ar Mehefin 23ain-24ain. Cysylltwch â'r Coleg i gael ffurflen gofrestru: colegybala@ebcpcw.org.uk / 01678 520565.
- **SUL Y FRO** dydd Sul, Mehefin 25ain:
 - **“i-Grist”** – Oedfa'r bore yn Llansannan am 10.30 i deuluoedd holl eglwysi'r Ofalaeth. Yn dilyn yr oedfa, byddwn yn mynd i'r Brenig i gael picnic ac i gymdeithasu, tra bydd cyfle i'r plant fwynhau y maes antur sydd newydd agor yno. (Os na fydd y tywydd yn caniatáu inni fynd i'r Brenig, mae trefniadau wedi eu gwneud inni fynd i'r Ganolfan yn Llansannan i gael ein picnic, a bydd gemau wedi eu trefnu i'r plant.)
 - Yna am 6.00, eto yn Llansannan, cynhelir **“Oedfa o Fawl”** pryd byddwn yn dathlu tri chan mlwyddiant geni William Williams, Pantycelyn, un o emynwyr mwyaf Cymru, ac yn rhoi sylw arbennig i'w emynau bendigedig. Croeso i bawb!
- **TAITH GERDED HAMDDENOL I'R OFALAEATH** nos Fercher, Mehefin 28ain yn ardal Henllan. Mwy o fanylion i ddilyn. Croeso i bawb.



Llais Bro Aled

Dydd Sul, 4^{ydd} Mehefin 2017

Darlleniad y Dydd

Actau 2:14-21

(BCND tud.130 / BCN tud.119)

eglwysibroaled.com

rhaglendorcas.com

llanw.org

hyfforddiantdawn.com

Bore da a chroeso cynnes i bawb ohonoch i'n hoedfaon ym Mro Aled heddiw. Llongyfarchiadau mawr hefyd i bawb fu'n cystadlu yn Eisteddfod yr Urdd, a gobeithio na chawsoch ormod o ddiflastod mewn tagfeydd traffig!

Cofiwch am Oedfa'r Fro yn Festri Capel Coffa Henry Rees heno, lle byddwn yn diweddu ein cyfres ar y Colosiaid trwy gael trosolwg o'r llythyr. Bydd cyfle i holi ac ateb cwestiynau sydd wedi codi dros y misoedd diwethaf a gweddiwn am fendith Duw ar y trafod a'r moli.

Pentecost. Gair anghyfarwydd i'r rhan fwyaf ohonom y tu allan i furiau'r capel, ond term sy'n bwysig eithriadol i Gristnogion oherwydd yr hyn yr ydym yn ei gofio a'i dathlu heddiw. Ystyr Pentecost yw pumdeg diwrnod gan ei bod yn ŵyl Iddewig fyddai'n cael ei chynnal hanner can diwrnod wedi dechrau dathliadau'r Pasg. Ond nid fel gŵyl Iddewig y mae Cristnogion yn dathlu'r Pentecost, ond yn hytrach, cofiwn y digwyddiad dramatig yn Jerwsalem pan lanwyd y disgyblion gan yr Ysbryd Glân. Roedd Iesu wedi addo hyn iddynt o flaen llaw, ond pan ddisgynnodd yr Ysbryd Glân, nid dim ond y disgyblion a effeithiwyd ond nifer helaeth o Iddewon o wahanol rannau o'r byd. Clywodd bobl am weithredoedd nerthol Duw yn eu hieithoedd eu hunain, ac felly gwelwyd cychwyn lledaeniad yr Efengyl o Jerwsalem i bob cornel o'r byd (fel y rhagfynegodd Iesu yn Actau 1:8!) Ond digwyddodd mwy na hynny hyd yn oed ar Sul y Pentecost. Os darllenwn yr holl hanes yn Actau 2 sylweddolwn fod yr Ysbryd Glân hefyd wedi galluogi Pedr i bregethu i'r dyrfa gan egluro bod digwyddiadau dramatig y Pentecost i gyd yn gysylltiedig â chroeshoeliad ac atgyfodiad Iesu Grist a ddigwyddodd ddeufis yn gynharach. O glywed hyn, ymatebodd nifer i alwad Pedr i droi cefn ar eu pechod a rhoddodd o gwmpas 3,000 o bobl eu ffydd yn Iesu Grist y diwrnod hwnnw (Actau 2:41).

Os ydym am i'r Efengyl gael ei chyhoeddi'n glir ar draws Cymru a'r byd, os ydym am weld mwy a mwy o bobl yn ymateb i'r hyn a glywant trwy gredu yn Iesu Grist a derbyn maddeuant, rhaid i'r Ysbryd Glân fod ar waith. Dyna sy'n amlwg o hanes y Pentecost ac wrth gael ein hatgoffa o hyn, beth am i ninnau weddio ar i'r Ysbryd weithio'n rymus ynom ni, a thrwom ni heddiw. Oherwydd er y gallwn yn aml deimlo'n annigonol neu'n swil o wneud ein gwaith fel llysgenhadon Crist, cofiwn mai 'nid ysbryd sy'n peri llwfrdra a roddodd Duw i ni, ond ysbryd sy'n peri nerth a chariad a hunanddisgyblaeth.' (2 Timotheus 1:7)

DILYNWCH NI: @eglwysibroaled 

Rhodri

Cyhoeddiadau

Y Fro

- Sul yma – 4^{ydd} ➤ Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00 pryd y bydd Rhodri a Gwion yn arwain adolygiad i ddiweddu ein cyfres ar Lythyr Paul at y Colosiaid.
- Mawrth – 6^{ed} ➤ **Cyfarfod Gweddi'r Fro** yng Nghefn Meiriadog am 7.30.
- Gwener – 9^{fed} ➤ **C.I.C.** (Clwb Ieuenctid Cristnogol) ar gyfer pobl ifanc bl.7-9 yn Llansannan rhwng 7.30 a 9.15.
- Sul nesaf – 11^{eg} ➤ **Cymanfa Ganu Annibynwyr Dyffryn Clwyd** yng Nghapel Pendref, Rhuthun am 2.30. Cymanfa o emynau plant ac oedolion o Ddetholiad 2016-17. Arweinydd: Nia Edwards, Llangwm. Croeso i bawb.
- Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Celfyn, a bydd Rhodri yn pregethu.

Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma – 4^{ydd} ➤ Bydd Dafydd Timothy yn arwain oedfa yng Nghefn Meiriadog am 10.30 a chynhelir yr Ysgol Sul yno am 2.00. Cynhelir Cyfarfod Gweddi yn Llanfair am 10.00 a bydd yr Ysgol Sul yno am 11.00.
- Sul nesaf – 11^{eg} ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yng NGHEFN MEIRIADOG (sylwch ar y newid lleoliad) am 10.30, a bydd Ysgol Sul yno am 2.00.

Henllan a Groes

- Sul yma – 4^{ydd} ➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith yn Henllan am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes a Henllan am 10.00.
- Sul nesaf – 11^{eg} ➤ Cynhelir Cyfarfod Gweddi i'r daith yn Henllan am 10.00 ac yna bydd yr aelodau yn mynd ar bererindod.

Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma – 4^{ydd} ➤ Bydd y Parch. Goronwy Prys Owen yn arwain oedfa yng Nghefn Berain am 10.00 ac yn Llanefydd am 2.00. Bydd yr Ysgol Sul yn Llanefydd am 10.00 ac yn cydreddeg â'r oedfa yng Nghefn Berain.
- Sul nesaf – 11^{eg} ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Berain am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd a Chefn Berain am 10.00.

Cyhoeddiadau

Llansannan a Nantglyn

- Sul yma – 4^{ydd} ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa deulu yn Llansannan am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul i'r oedolion am 11.10.
- Ni fydd oedfa yn Nantglyn.
- Mercher – 7^{fed} ➤ Cynhelir Cinio Jangl yn Ysgol Bro Aled am 12.00. Enwau i Eifion Jones, Y Gorlan (870656) erbyn dydd Sul, os gwelwch yn dda.
- Sul nesaf – 11^{eg} ➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa yn Llansannan am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
- Bydd Gwion yn arwain oedfa yn Nantglyn am 2.00.

Saron a Pheniel

- Sul yma – 4^{ydd} ➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith ym Mheniel am 10.00. Yn dilyn yr oedfa, darperir cinio am £6.00 yn y festri i godi arian at y Capel. Mae croeso i unrhyw un ond i chi fod wedi rhoi eich enw i Nerys (01745 816673) neu Helen (01745 550276) erbyn Mehefin 1^{af}, os gwelwch yn dda. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel ac yn Saron am 2.00.
- Sul nesaf – 11^{eg} ➤ Bydd aelodau Peniel a Saron yn mynd ar bererindod – mwy o fanylion i ddilyn.

Manylion Cyswilt

- Rhodri – 📧 rhodri@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870522 📞 07814 660291
- Gwion – 📧 gwion@eglwysibroaled.com ☎ 01745 582644 📞 07849 591163
- Mair – 📧 mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 📞 07900 627536
- Cyhoeddiadau i'w hanfon i Mair erbyn 9.00 nos Fercher, os gwelwch yn dda.*

Eglwysi Bro Aled

Ein nod yw tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau.

Darlleniad Wythnos Nesaf

Micha 4:6-8 (BCND tud.844 / BCN tud.769)